# Gweithgaredd Dysgu - Cyfnod Allweddol 3

Mae'r adnodd hwn yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer eich myfyrwyr, gan ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n un o gyfres o chwech am Paul Robeson ar gyfer CA3.

Gadewch i Paul Robeson Ganu!
Bywyd Cynnar Robeson
Paul Robeson: Addysg
**Paul Robeson: Dinesydd Byd-eang**
Paul Robeson: Llwyfan a Sgrin
Robeson yng Nghymru

## Paul Robeson: Dinesydd Byd-eang

## Gan South Wales Miners Library

## Cyflwyniad

**Pa ran chwaraeodd Paul Robeson wrth helpu i ffurfio newidiadau i hawliau sifil o gwmpas y byd?**

Mae'r uned hon yn cefnogi ymchwiliadau i berson o bwys o'r ugeinfed ganrif a oedd yn ffigur rhyngwladol ond a oedd â chysylltiadau â Chymru. Mae'r uned hon yn annog ymchwiliadau a dadansoddiad o rôl Robeson mewn mudiadau hawliau sifil a sut y cyfrannodd at ffurfio'r byd rydyn ni'n byw ynddo heddiw.

**Tasgau ac amcanion dysgu**

1. Robeson yn Sbaen
2. Hawliau Sifil ac Anghyfiawnderau
3. Pa arwyddocâd sydd gan Robeson i'n byd ni heddiw?

## 1. Robeson yn Sbaen


WELSH NATIONAL MEMORIAL MEETING

to the Men of the International Brigade from Wales who gave their lives in defence of Democracy in Spain

★

THE PAVILION, MOUNTAIN ASH

December 7th, 1938

★

PROGRAMME - TWOPENCE

*Rhaglen y Cyfarfod Coffa Cenedlaethol, 1938*



*Henry Dobson, Brigadydd Rhyngwladol*

Erbyn 1936, wrth i Ewrop faglu tuag at yr Ail Ryfel Byd, cysylltodd Robeson y frwydr yn erbyn ffasgiaeth â'r frwydr yn ei wlad ei hun ac mewn gwledydd eraill.

Gwelodd ymrwymiad angerddol pobl y dosbarth gweithiol yng Nghymru wrth ymuno â'r Brigadyddion Rhyngwladol i ymladd gyda'r Gweriniaethwyr yn Sbaen yn erbyn y ffasgwyr. Cafodd ei wahodd i ganu mewn Cyfarfod Coffa Cenedlaethol yn y Pafiliwn, Aberpennar ar 7 Rhagfyr 1938. Yn gynt y flwyddyn honno, ymwelodd Robeson, gyda'i wraig, â Sbaen i ganu i'r milwyr Gweriniaethol a'u cefnogwyr.

Beth ydych chi eisoes yn ei wybod am dwf ffasgiaeth yn Ewrop yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif?

Beth oedd y cysylltiadau rhwng Robeson, Sbaen a Chymru?

**Cyswllt i ddelweddau ar wefan Casgliad y Werin Cymru**

[Rhaglen y Cyfarfod Coffa Cenedlaethol, 1938](#)
[Henry Dobson, Brigadydd Rhyngwladol](#)

## 2. Hawliau Sifil ac Anghyfiawnderau






*Terfysg Peekshill, 1949*

*Robeson on an anti-segregation march, 1948*

Beth yw ystyr bod â 'hawliau sifil'?

A oes hawliau sifil gennych chi?

Mae'r hawliau sifil sydd gennym heddiw wedi'u hennill yn galed gan lawer o bobl yn y gorffennol. Roedd Paul Robeson yn un person a oedd am newid bywydau llawer o bobl o dan ormes o gwmpas y byd, gan gynnwys Americaniaid Affricanaidd.

Gwybodaeth ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yng Nghymru:


www.equalityhumanrights.com/wales

www.wales.gov.uk/topics/equality

**Cyswllt i ddelweddau ar wefan Casgliad y Werin Cymru**

**Terfysg Peekshill, 1949**
**Robeson on an anti-segregation march, 1948**

## 3. Pa arwyddocâd sydd gan Robeson i'n byd ni heddiw?




*Freedomways Journal, 1971*

Mae taith Paul Robeson yn taflu goleuni ar y gorffennol diweddar, ac yn parhau i ffurfio ein byd ni heddiw.

Roedd ei frwydr yn erbyn anghyfiawnder ac arwahanu hiliol wedi gosod y seiliau i Fudiadau Hawliau Sifil ac Ymwybyddiaeth Ddu yn America a gwledydd y tu hwnt.

O ymchwilio i ddeunydd Gadewch i Paul Robeson Ganu, a fyddech chi'n cytuno y byddai Paul Robeson yn cael ei gofio am y canlynol? Ei fod:

- wedi cyflawni llawer a bod ganddo gredoau cadarn
- wedi ymgyrchu dros ddealltwriaeth ryngwladol
- yn ymgyrchu'n barhaus dros heddwch
- wedi ymladd yn erbyn hiliaeth a hawliau dynol
- wedi ymwrthod â stereoteipio ac wedi creu modelau rôl cadarnhaol
- dathlu diwylliannau pobl gyffredin ledled y byd.

**Cyswllt i ddelwedd ar wefan Casgliad y Werin Cymru**

Freedomways Journal, 1971